# COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL A GYNHALIWYD ar yr 21/05/2024

**Presennol:**
Y Cyng.   , I Ellis, (Is-Gadeirydd) Cyng L. A. James, Cyng J. Lewis, Cyng B. Jones , Cyng A Joyce, a Cyng  J Pierce
Elwyn Jones (Clerc)

**Ymddiheuriadau**:
Y Cyng, D. Jones-Morris; Cyng E Roberts , Cyng C W Owen; Cyng M Baines a Cyng J Griffiths

Oherwydd bod y Cadeirydd wedi ymddiheuro esboniodd y Clerc mae ein tasg gyntaf oedd i Ethol Cadeirydd. Aeth ymlaen i ddatgan nad oedd y Cyng D Jones-Morris yn awyddus i barhau yn y gadair gymerodd drosodd dros dro pan sefodd ein cyn Gynghorydd M Lynch i lawr o'r gadair yn ystod y flewyddyn. Cafodd yr Is-Gadeirydd presennol Cyng I ellis ei gynnig a'r eilio a'i dderbyn yn unfrydol

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd bresennol i'r cyfarfod cyn traddodi gweddi a symud ymlaen i ddatgan ein cydymdeimlad, fel Cyngor, a'r Cyng L A James a'r golli ei thad yn ddiweddar a symud ymlaen i'r Agenda

**1. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2023 a materion yn codi.**
Ar gynnig Cyng L A James gafodd ei eilio gan Cyng B. Jones derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

**2. Cyfrifon ac Adroddiad Ariannol 2023 - 24**
**Ar gynnig Cyng L A James gafodd  ei eilio gan Cyng J Pierce derbyniwyd y cyfrifon am y flwyddyn 2023 - 24 ynghyd a'r adroddiad ariannol fel rhai cywir a chymedwywyd i'r Cadeirydd eu arwyddo. 'Roedd y dogfennau eisioes wedi eu archwylio gan ein Archwilwyr Mewnnol ag wedi eu anfon yn electronig at bob aelod.**
**Arwyddwyd y Ffurflen Flynyddol gan y Cadeirydd a'r Clerc a byddant rwan yn cael eu anfon at yr Archwilwyr Allannol fel rhan o'n archwyliad llawn**
**Derbynwyd hefyd yr adroddiad flynyddol ddarparwyd gan y Clerc**

**3. Adroddiad Cadeirydd y Cyngor**
Ar lafar adroddodd y Cadeirydd nad oedd wedi darparu mlaen llaw ond nad oedd am golli ar y cyfle i ddatgan diolchiadau i'r aelodau i gyd ond yn arbennig iawn i Cyng L A James sydd wastad yn mynd y filltir ychwanegol ag yn cyflawni gwaith arbennig ar ran y Cyngor. Aeth ymlaen i ddiolch i'r Clerc am ei waith yntau ag i'r Cyfieithydd sydd yn mynychu ein cyfarfodydd Cyngor Llawn
Tra bod rhwystrau wedi bod yn y gorffennol oedd yn gwneud y gwaith yn rhwystredig iawn 'roedd yn mawr obeithio bod golau pen y twnel bellach i'w weld a brysied y dydd pan fydd prosiect Ysgol y Faenol yn cael ei gwblhau ac y cawn symud i mewn i'r ganolfan Newydd

**4. Ethol Swyddogion**
4.Yn sgil y ffaidd fod cynifer o aelodau yn absennol gohirwyd y rhan yma o'r cyfarfod Blynyddol gyda'r gobaith y byddai mwy yn bresennol yng nghyfarfod Mis Mehefin

**5**. Am yr un rheswm cytunwyd hefyd i ohirio Adolygu Rheoliadau/Polisiau tan Mis Mehefin hefyd

Daeth y Cyfarfod Blynddol i ben am 7.30